OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 253

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2023

**Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 9 (Dosbarth 6), yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Mae'r dosbarth ar anheddau sydd wedi ei ragnodi at ddiben y rheoliad hwn ("Dosbarth 6") wedi ei ffurfio o bob annedd y mae ei meddiannu wedi ei gyfyngu gan amod cynllunio sydd—

(a) yn atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o 28 o ddiwrnodau o leiaf mewn unrhyw gyfnod o un flwyddyn;

(b) yn pennu na chaniateir defnyddio'r annedd ond ar gyfer llety gwyliau; neu

(c) yn atal meddiannaeth fel unig neu brif breswylfa person.".

(**1**) O.S. 2015/2068, a ddiwygiwyd gan baragraff 102(1) o Atodlen 3 i Reoliadau Partneriaeth Sifil (Cyplau o Rywiau Gwahanol) 2019 (O.S. 2019/1458).